Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Chwilog
Chwilog
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6PS

27/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Chwefror 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Chwilog yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau TGCh ar draws y meysydd dysgu

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwella medrau digidol disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi trefnu buddsoddiad sylweddol mewn offer digidol er mwyn cefnogi disgyblion i ddefnyddio ystod eang o gyfarpar a meddalwedd digidol yn eu gwaith.
- Mae'r staff yn derbyn dysgu proffesiynol pwrpasol a chynhwysfawr er mwyn datblygu eu medrau digidol unigol. Mae hyn yn meithrin gallu a dealltwriaeth athrawon i ddefnyddio a chyflwyno ystod eang o feddalwedd ddigidol yn effeithiol.
- Mae'r athrawon yn cydweithio'n bwrpasol i sicrhau bod medrau digidol disgyblion yn adeiladu'n gynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Ar gychwyn bob tymor, maent yn cydgynllunio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd cyfoethog ac ysgogol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol o fewn eu themâu. Mae hyn yn cefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau digidol yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau ac ar draws y meysydd dysgu.

- Mae'r pennaeth yn cydnabod mai'r cam nesaf yw cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio a rhyngweithio â disgyblion ysgolion cyfagos er mwyn datblygu eu medrau digidol ymhellach.

## Datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol

- Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn datblygu dealltwriaeth gynyddol yn eu rôl fel cyfeillion cefnogol a beirniadol. Maent yn ymweld â dosbarthiadau'n rheolaidd ac yn trafod gwaith gyda disgyblion. Maent yn adrodd i'r corff llawn, ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.
- Mae'r corff yn gwneud defnydd priodol o arbenigedd ei aelodau i herio a chefnogi'r ysgol yn strategol. Mae hyn yn cynnwys craffu ar drefniadau diogelu, gweithdrefnau clo mewn argyfwng, trefnu hyfforddiant perthnasol a chefnogi llesiant staff. Yn ogystal, maent wedi cyfrannu'n effeithiol at wella safon yr adeilad a'r amgylchedd dysgu.
- Mae'r pennaeth yn cydnabod yr angen i ddatblygu ymhellach gyfleoedd i gynnwys y llywodraethwyr mewn gweithgareddau hunanwerthuso sy'n canolbwyntio'n fwy penodol ar agweddau o'r ddarpariaeth a'r effaith ar safonau disgyblion.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612036

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol